cpllll | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund



# Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

# Taliadau Cynllun: Lwfans Blynyddol

## Awst 2025

# Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad .... 3
Ffurflen dreth hunanasesiad .... 3
Cyfrifo eich tâl lwfans blynyddol .... 3
Talu'r tâl .... 3
Taliadau Cynllun .... 4
Budd-daliadau i Oroeswyr .... 4
Gwrthod ffurflen Taliadau Cynllun .... 4
Dyddiad Cau Ceisiadau Taliadau Cynllun .... 5
Cysylltu â Chronfa Bensiynau Clwyd .... 6
Ymwadiad .... 6

## Cyflwyniad

Eich lwfans blynyddol yw'r swm y gall gwerth eich buddion pensiwn gynyddu mewn blwyddyn dreth heb i chi orfod talu treth. Os yw gwerth eich cynilion pensiwn o 6 Ebrill tan 5 Ebrill yn fwy na'ch lwfans blynyddol, bydd y swm dros ben yn cael ei drethu oni bai bod gennych lwfans heb ei ddefnyddio o'r tair blynedd dreth flaenorol (a adnabyddir fel **arian a ddygwyd ymlaen**) y gellir ei ddefnyddio yn erbyn y swm dros ben.

Os bydd rhaid i chi dalu tâl treth, bydd arnoch angen adrodd a thalu'r tâl i Gyllid a Thollau EF. Er mwyn rhoi gwybod i Adran Cyllid a Thollau EF am y tâl, bydd angen i chi lenwi **ffurflen dreth hunanasesiad**.

## Ffurflen dreth hunanasesiad

Rhaid i chi ddweud wrth Adran Cyllid a Thollau EF am eich cynilion pensiwn a'r angen i chi dalu'r tâl lwfans blynyddol trwy lenwi rhan 'taliadau treth cynilion pensiwn' y ffurflen. Os nad ydych yn llenwi'r ffurflen ar-lein, yna byddwch angen llenwi ffurflen SA101. Bydd arnoch angen nodi cyfeirnod treth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar y ffurflen, a'r cyfeirnod yw **00329946RE**.

Os nad ydych chi wedi llenwi ffurflen dreth o'r blaen, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru i roi gwybod i Adran Cyllid a Thollau EF am y tâl a chael ffurflen dreth ganddynt. Mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael yn:

**https://www.gov.uk/cyflwyno-ch-ffurflen-dreth-hunanasesiad-ar-lein**

## Cyfrifo eich tâl lwfans blynyddol

Mae rhagor o fanylion am sut i gyfrifo eich tâl lwfans blynyddol yn Llawlyfr Treth Pensiynau Cyllid a Thollau EF. Mae hwn ar gael ar eu gwefan.

**www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/pensions-tax-manual/ptm056110** (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

## Talu'r tâl

Mae dau ddewis talu ar gael i chi:

1. Os yw'r tâl **yn llai na £2,000**, mae'n rhaid i chi dalu'r tâl eich hun ar eich ffurflen fel trethdalwr hunanasesiad.
2. Os yw'r tâl **yn fwy na £2,000**, a chyhyd â bod amodau penodol yn cael eu bodloni, gallwch ddewis i Gronfa Bensiynau Clwyd dalu'r tâl ar eich rhan gan ddefnyddio'r opsiwn **Taliadau Cynllun.**

Os ydych chi'n dewis talu'r tâl eich hun, fel arfer byddai angen i chi wneud hyn erbyn dyddiad cau taliadau hunanasesiad, sef **31 Ionawr 2026** ar gyfer eich datganiad 2024/2025. Ond, os ydych chi'n talu'r tâl yn uniongyrchol i Gyllid a Thollau EF ar-lein, y dyddiad cau yw **30 Rhagfyr 2025**.

Os ydych naill ai'n talu'r tâl eich hun yn uniongyrchol i Gyllid a Thollau EF neu eich bod yn dewis bod Cronfa Bensiynau Clwyd yn talu'r tâl ar eich rhan dan Daliadau Cynllun, bydd arnoch angen rhoi gwybod i Gyllid a Thollau EF am eich tâl treth lwfans blynyddol ar eich ffurflen dreth hunanasesiad. Os ydych yn dewis talu'r tâl treth drwy Daliadau Cynllun, mae'n rhaid i chi roi gwybod am hyn i Gyllid a Thollau EF hefyd.

## Taliadau Cynllun

Gall tâl lwfans blynyddol fod yn swm mawr o arian. Os yw'r tâl yn fwy na £2,000 a'i fod yn deillio o'ch cynilion pensiwn gyda Chronfa Bensiynau Clwyd, gallwch ddewis i'r Gronfa dalu'r **holl dâl neu rywfaint** ohono ar eich rhan, yn gyfnewid am **ostyngiad parhaol** i'ch buddion pensiwn.

Os ydych yn dewis bod Cronfa Bensiynau Clwyd ond yn talu rhan o'r tâl, yna byddech chi'n talu'r gweddill yn uniongyrchol i Gyllid a Thollau EF. Mae hyn yn golygu bod rhaid i chi ddychwelyd eich ffurflen Taliadau Cynllun i Gronfa Bensiynau Clwyd ac nad oes rhaid nodi'r swm llawn o'r tâl treth arni.

Os ydych chi'n meddwl y byddwch yn cael eich effeithio a'ch bod eisiau ystyried y dewis Taliadau Cynllun, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd mor fuan â phosib, gan fod dyddiadau cau caeth ar gyfer Taliadau Cynllun.

Cyn y gellir defnyddio Taliadau Cynllun i'ch pensiwn, mae'n rhaid bodloni amodau a bydd arnoch angen llenwi ffurflen Taliadau Cynllun sydd ar gael gan Gronfa Bensiynau Clwyd. Os ydych wedi gofyn i Gronfa Bensiynau Clwyd dalu eich tâl treth lwfans blynyddol ar eich rhan, ni chewch newid eich meddwl ar ddyddiad diweddarach.

## Budd-daliadau i Oroeswyr

**Ni fydd** unrhyw ddebyd Taliadau Cynllun yn effeithio ar bensiynau goroeswyr a all fod yn daladwy pan fyddwch yn marw. Gellir talu pensiynau goroeswyr i'ch:

- Gŵr
- Gwraig
- Partner Sifil Cofrestredig
- Partner cymwys sy'n cydfyw (ddim ar gael yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer Cynghorwyr)
- Plant cymwys

## Gwrthod ffurflen Taliadau Cynllun

**Ni fydd** Cronfa Bensiynau Clwyd yn talu'r tâl lwfans blynyddol ar eich rhan yn achos y canlynol:

- Nid ydych yn bodloni amodau Taliadau Cynllun; neu
- Nid yw'r tâl lwfans blynyddol cyfan yn ymwneud â'ch budd-daliadau o'r Gronfa; neu

- Nid yw'r ffurflen Taliadau Cynllun wedi'i derbyn o fewn y dyddiad cau statudol a nodwyd; neu
- Bod eich budd-daliadau pensiwn eisoes yn cael eu talu i chi o'r Gronfa; neu
- Eich bod dros 75 oed ac na dderbyniwyd eich ffurflen Taliadau Cynllun cyn eich pen-blwydd yn 75; neu
- Eich bod wedi trosglwyddo eich budd-daliadau o Gronfa Bensiynau Clwyd neu wedi cymryd ad-daliad o'ch cyfraniadau pensiwn; neu
- Nad oes gennych ddigon o bensiwn ar ôl i dalu'r tâl lwfans blynyddol pan mae'r gostyngiad parhaol yn cael ei roi ar eich budd-daliadau.

## Dyddiad Cau Ceisiadau Taliadau Cynllun

Ni allwch lenwi ffurflen Taliadau Cynllun cyn diwedd y flwyddyn dreth y mae'r tâl lwfans blynyddol yn deillio ohoni (oni bai eich bod yn nesáu at ymddeol neu'n bwriadu trosglwyddo allan). Mae'n rhaid i chi lenwi'r ffurflen cyn **31 Gorffennaf** sy'n dilyn y mis Ionawr y mae'n rhaid datgan y tâl treth lwfans blynyddol ar eich ffurflen dreth.

| Blwyddyn Dreth | Tâl Treth Lwfans Blynyddol a Adroddwyd | Dyddiad Cau |
|---|---|---|
| **2023/2024** | 31 Ionawr 2025 | 31 Gorffennaf 2025 |
| **2024/2025** | 31 Ionawr 2026 | 31 Gorffennaf 2026 |

Os ydych chi'n ymddeol ac yn dod yn gymwys ar gyfer eich holl fudd-daliadau o Gronfa Bensiynau Clwyd, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ddigon ymlaen llaw cyn eich dyddiad ymddeol, fel bod eich ffurflen Taliadau Cynllun ar gofnod cyn i ni brosesu eich budd-daliadau. Os ydych yn trosglwyddo eich budd-daliadau o Gronfa Bensiynau Clwyd, mae'n rhaid i'ch ffurflen Taliadau Cynllun gyrraedd mewn digon o amser cyn bydd y trosglwyddiad yn cwblhau. Hefyd, mae'n rhaid i chi roi gwybod i Gronfa Bensiynau Clwyd os ydych eisiau defnyddio Taliadau Cynllun cyn i chi gyrraedd 75 oed (yn arbennig os ydych yn cyrraedd 75 oed yn y flwyddyn dreth y bydd eich tâl lwfans blynyddol yn digwydd).

### Sylwch

**Ni all** Cronfa Bensiynau Clwyd **roi cyngor ariannol i chi**. Bydd rhaid i chi feddwl beth yw'r dewis orau i chi ar gyfer eich sefyllfa bersonol eich hun. Dylech sicrhau eich bod yn deall goblygiadau gwneud dewis am Daliadau Cynllun yn llwyr.

Dylech gael **cyngor ariannol annibynnol** gan ymgynghorydd sydd â gwybodaeth am Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Gallwch ddefnyddio'r gwefannau canlynol os hoffech chwilio am ymgynghorydd yn eich ardal:

- **https://www.unbiased.co.uk** (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)
- **https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser?source=mas**

## Cysylltu â Chronfa Bensiynau Clwyd

Nid yw'r daflen ffeithiau hon ond yn cynnwys cyngor cyffredinol. Os hoffech ragor o wybodaeth neu fod gennych unrhyw gwestiynau am eich buddion neu aelodaeth CPLlL, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd:

**Ffôn:** 01352 702875

**E-bost:** **pensiynau@siryfflint.gov.uk**

**Cyfeiriad:** Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

**Gwefan:** **https://cronfabensiynauclwyd.org.uk**

## Ymwadiad

Mae'r daflen ffeithiau hon wedi seilio ar ein dealltwriaeth gyfredol o reolau Taliadau Cynllun (ym mis **Ebrill 2025**). Er gwybodaeth yw'r daflen hon ac nid yw'n cynnwys pob math o amgylchiadau personol. Mae'r materion sydd ynghlwm yn gymhleth ac ni all Cronfa Bensiynau Clwyd ddarparu unrhyw arweiniad na chyngor personol.

cronfabensiynauclwyd.org.uk

**Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF**

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.